## Llangernyw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

### Tirfeddianwyr

Roedd Garthewin yn berchen ar rai ffermydd yn yr ardal sef Bryn Gwylan, Plas Isa, Sgubor Newydd, Fron Goch, Tŷ Mawr a Nant Cefn Coch. Cafwyd ocsiwn ar y ffermydd yn 1911ond ni werthwyd pob un. Roedd hyn yn dangos fod yna dlodi a chaledi mawr yn y cyfnod yma yn yr ardal oherwydd nad oedd rhai ffermydd wedi cael cynnig o gwbl arnynt.

Roedd fferm Bodgynwch yn berchen i deulu Annwyl. Fe wnaethant werthu y tir ar gyfer adeiladu Ainon yn rhesymol ar yr amod eu bod yn cael sêdd yn y capel. Adeiladwyd y capel yn 1862 oherwydd fod capel Bethabara y Bedyddwyr yn Llangernyw yn orlawn oherwydd fod yna dipyn o fynd ar grefydd ac addoli yn y cyfnod yma. Roedd yna deuluoedd mawr a gweision a morynion yn yr ardal. Roedd Bethabara ac Ainion yn yr un cylchdaith a Chapel Codau. Roedd y pregethwyr yn cerdded drwy bob tywydd, yn yr haf drwy'r caeau i Codau, neu i fyny allt Waterloo yn y gaeaf.

Codwyd Capel Cefn Coch yn y 1700'au a hwn yw'r capel hynaf yn y cylch.Yna codwyd Capel y Garnedd a Chapel y Cwm yn 1910 a oedd yn perthyn i'r un cylchdaith Methodistaidd.

Yn y pentref ceir Eglwys Sant Digain. Roedd Gystenin Gorneu wedi dod o Gernyw, a'i fab ef oedd Digain. Dyna pam fod Llan + Cernyw wedi mynd yn Llangernyw. Yn y fynwent ceir y goeden ywen hynafol sydd tua 4,000 oed.

Sandbach

Ar ddechraua'r 1830 prynodd Samuel Sandbach, Hafodunos.Adeiladodd ffordd newydd o Abergele i Lanrwst oherwydd fod angen am ddefnyddiau ar gyfer codi'r plas newydd.Mae'n debyg fod y nwyddau yn cyrraedd ar y trên i Abergele, mae'n bosib fod rhai nwyddau fel llechi yn cael eu cludo i Lanrwst.Roeddynt wedi bwriadu codi'r Plas gyda ithfaen ond ar ôl adeiladu o'r seler i'r llawr cyntaf gwelwyd fod y gost am fod yn rhy uchel.Felly rhoddwyd brics i weddill yr adeilad, gyda brics lleol. Yn y cyfnod yma roedd gwaith nwy gerllaw i roi gwres a golau i'r Plas.Mae'r bont hyd heddiw yn cael ei galw'n Bont Gas. Gilbert Scott oedd y pensaer a gynlluniodd y Plas presennol a oedd wedi ei adeiladu ar safle hen blas y Llwydiaid oedd wedi bod yno ers canrifoedd. Roedd gardd sylweddol a thai gwydr oddi amgylch y Plas yn cyflogi pobl leol fel garddwyr, coedigwyr, morynion a gweision.Yn y cyfnod yma sylwn hefyd fod llawer o Albanwyr wedi dod i weithio fel tenantiaid, bugeiliaid a chiperiaid drwy gysylltiad Mrs Sandbach ac mae eu disgynyddion yn dal yn yr ardal heddiw fel yr Howatson, Bell, Dunwoodie a Beaty. Roedd wedi plannu llawer o goed ar ei dir ar y gwahanol ffermydd oedd yn berchen arnynt fel Camaes, Maesol, Gell ayb

Diddorol yw edrych drwy ddyddiaduron H.R.Sandbach o 1853-89 a nodi ambell beth mae wedi ei gofnodi :-

Sat 14th May 1853  John Parry, orphan bound apprentice as a gardener.Planting out in flower garden.
Yn y 19 Ganrif roedd bywyd yn galed adeg rhyfeloedd Napoleon a thlodi drwy'r wlad a rhieni yn anfon eu plant allan i gardota yn hytrach na llwgu.Ar ddechrau'r ganrif yma hefyd codwyd y rhenti ac roedd hyn yn achosi caledi mawr i'r tenantiaid.
Roedd H.R.Sandbach yn trafeilio ar gefn ei geffyl i bob man.
Dec 24th 1853
School feast came off well with New school. 80 children had plenty of soup, bread and plum pudding.They say the grace before and after and were very clean and orderly.
Jan 14th 1854
Millwright putting up a thrashing machine. Rhywbeth newydd i'r cyfnod yma. Eira dros bob man.
March7th
Called on some cottages about keeping their children more regular in school. A oedd yna reswm arbennig fod y plant wedi cael eu cadw adref?
Aug 25th
Agricultural meeting with Sir Robert Vaughan president. Very poor meeting.The Welsh farmers do not support the Society or avail themselves of its benefits.
Os gwn i pam, a oeddynt yn ddrwgdybus tybed?
Ym 1855 roedd Hugh Morris, garddwr wedi penderfynu mynd yn ysgolfeistr. Yn ol H.R.Sandbach roedd y gaeaf yma wedi bod yn arw iawn.

Tristwch oedd darllen cofnod Ionawr 28ain 1859 pan oedd wedi ceisio symud teulu Dolau allan o’r tŷ oherwydd ei fod wedi ei addo i John Jones.
Mai 7ed 1872 cafodd y garddwyr godiad cyflog. Enwir Geo Gutherie fel y pen garddwr.
Yn ystod y cofnodi ceir sawl enghraifft o dywydd caled yn y gaeaf, Tachwedd gwlyb iawn, Ionawr eira ar lawr, yna yn yr haf sychder mawr ym mis Mehefin a hwythau wedi plannu blodau.Felly roeddynt yn dibynnu llawer ar y tywydd fel ninnau heddiw.
Ffaith diddorol arall yw’r cofnod o
“Statement of accounts of the Hafodunos Rents due the 29th September 1834 paid 31 March 1835.”
Gwelir yn y cofnod yma pwy oedd y tenant, faint o rent oeddynt yn ei dalu bob hanner blwyddyn gyda’r cyfanswm i gyd yn £1,087-10-0. Roedd yna 58 o denantiaid ar y rhestr yma.
Harry Parry overseer of Poor several cottages £11-10-0
Catherine Jones(gweddw) Pentrefelin. £6-0-0
Ond yr hyn sydd yn ddiddorol yw :-allowed for her son’s schooling 7/6 = £5-12-6
Rydym wedi darganfod fod y mab yma yn dalentog iawn.Roedd ei fam sef Catherine Jones a nain Syr Henry Jones yn ddwy chwaer, a thad Robert Roberts yn frawd iddi. Ym Amgueddfa Syr Henry Jones gwelir llyfrau cownt David Jones a’r hyn oedd yn ei wneud e.e. trwsio casgenni, llnau gwn, papuro wal, helpu efo’r cynhaeaf siopwr, gwneud ffisig, trwsio oriawr a chlociau. Gwelir bordiau amdano yn y Cwm. Ym 1853 dechreuodd dynnu

lluniau ar wydr a’u datblygu a theithio o Wytherin i Abergele i dynnu lluniau. Roedd hyn yn broses newydd sbon yn y cyfnod yma.Bu farw’n ifanc ond roedd wedi cyflawni cyn gymaint.
Gellir dweud yr un peth am Syr Henry Jones ei hun wedi cael ei fagu’n dlawd yng ngweithdy’r crydd. Bachgen galluog a ddysgodd ei hun ac a fu dan ofal John Price, gwas fferm a phrifathro ym Mhandy Tudur.Doedd o ddim yn hoffi’r ysgol Eglwys yn Llangernyw, roedd yn Seisnigedd ac yn defnyddio’r “Welsh Not.” Aeth yn ei flaen i fod yn athro a darlithydd. Diolch iddo ef am ei weledigaeth i ddechrau ysgolion uwchradd 14 mlynedd cyn Lloegr.

**Gwaith pobl**.

Melinwr, malu grawn i wneud blawd i’r bobl a’r anifeiliaid. Siopwyr, seiri coed, seiri maen, gofaint yn y pentref sef yr Efail, hefyd roedd efail ym Mhentre Smithy, gweision, morynion, garddwyr, coedwigwyr. Carter(gweithio efo ceffylau) yn mynd efo’r wêdd a throl i’r Foryd, Rhyl i nôl glo. Yna ei ddadlwytho yn chwarel Llanddulas i danio’r odyn a chael calch yn ôl i’r fferm i’w roi ar y tir.

**Tafarndai**

Stag gydag arfbais y Llwydiaid sef yr hydd.
Boar’s  Head gydag arfbais Wyniaid Melai.
Bridge.
Dafarn Bara Ceirch. Roedd y dafarn yma ar ffordd y porthmyn. Doedd dim trwydded i werthu alcohol yma ond roeddynt yn codi am fara ceirch fel ei fod yn

cynnwys y tâl am ddiod. Byddai porthmyn yn trafeilio o Ben Llŷn a Sir Fôn a chroesi'r afon yn Llanrwst.Yna dilyn y ffordd culion i osgoi talu tollau ar eu ffordd i lawr i ffeiriau Abergele.
Byddai marchnad bob yn ail ddydd Gwnener yn iard y Stag a byddai gwartheg a defaid yn cael eu gwerthu yno.

**Enwau caeau**.

Gentry Goch – cefn tref ddegwm a oedd yn llosgi yn yr haf.
Ddôl Pwll Du,Ty'n y Caeau – llyn tro dyfn yma.
Ddôl Brwydrau, Glan yr Afon
Pant Hen Eglwys, Penfyddin
Pant y Cerrig Gwynion – arwyddocad crefyddol yma.
Ffrith Borfa Ceffylau ddim yn bell o Penfyddin.
Mae Penfyddin mewn safle uchel i weld i fyny ac i lawr y dyffryn ac efallai mae ar y dyffryn roedd y fyddin yn brwydro.
Ddôl 'Rodyn, Cae'r Odyn ble roedd odyn i grasu ŷd.
Cil Ffrwd, ffos fechan yn terfynu rhwng Bryn Gwylan a Bodgynwch.

**Tyddynod**

Mae llawer o furddunod wedi mynd a'u pennau iddynt a phobl wedi symud o'r ardal i chwilio am waith oherwydd fod peiriannau yn dechrau cymeryd drosodd.
Ar dir Tyddyn Dolben ceir Bryn Tirion a ddaeth yn enwog ar ôl i Crych Elen ysgrifennu y geiriau am y gân "Bwthyn Bach Tô Gwellt."

Idwal ac Ann Vaughan